

GWASG PRIFYSGOL *Cymru*

LLYFRAU
NEWYDD
GWANWYN A HAF
2014

EWCH AT WEFAN NEWYDD GWASG PRIFYSGOL CYMRU WWW.GWASGPRIFYSGOLCYMRU.CO.UK AM WYBODAETH O'R WASG A'I CHYHOEDDIADAU, GAN GYNNWYS EIN LLYFRAU ARCHIFOL

Mae holl fanylion y catalog yn gywir wrth fynd i argraffu.
O dro i dro, gall ffactorau y tu hwnt i reolaeth y wasg arwain at rai newidiadau, a byddwn yn eich hysbysu o unrhyw newid wrth gadarnhau eich archeb.

CYSYLLTU

Gwasg Prifysgol Cymru
10 Rhodfa Columbus
Maes Brigantfîn
Caerdydd
Cymru
CF10 4UP

Ffôn: 029 2049 6899

Ffacs: 029 2049 6108

E-bost: gwasg@gwasg.cymru.ac.uk

Gwefan: www.gwasgprifysgolcymru.org

Cyfarwyddwr: **Helgard Krause**
Rheolwraig Gwerthiant a Marchnata: **Eleri Lloyd-Cresci**
Pennaeth Comisiynu: **Sarah Lewis**
Golygydd Comisiynu, Iaith Gymraeg a Phynciau Cymreig:
Llion Wigley
Rheolwraig Cynhyrchu a Golygu: **Siân Chapman**

CYNNWYS

Llyfrau Newydd	1
Llyfrau yn y Wasg	5
Cyfeirlyfrau	6
Cyfnodolion	10
Sut i archebu	14

Llun y clawr: © 3QuarksMedia / Alamy.

LLYFRAU NEWYDD

CASTELL CAERFYRDDIN

Olrhain Hanes Llywodraethiant

Neil Ludlow

Castell Caerfyrddin yw un o gestyll mwyaf pwysig ond lleiaf adnabyddus Cymru. Mae'r llyfr hwn yn archwilio hanes a datblygiad y ganolfan lywodraethol hon o'r cyfnod canoloesol hyd heddiw. Defnyddir cloddfeydd archaeolegol ac ymchwil ddogfenol i ddangos swyddogion y castell a thrigolion eraill wrth eu gwaith, a'u hymadwaith â thref Caerfyrddin, yr ardal leol a thu hwnt. Roedd swyddogaeth y castell yn effeithio ar Gymru gyfan. Disgrifir hen adeiladau a rhai sy'n dal i fodoli, ynghyd â'r defnydd a wnaed ohonynt, gan gynnwys y carchar ôl-ganoloesol. Mae'r llyfr hwn yn gosod Castell Caerfyrddin yn ôl ym myw hanes Cymru'r Oesoedd Canol.

Mae **Neil Ludlow** yn archaeolegydd ymgynghorol ac yn gyn-Reolwr Prosiect gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Gweithiodd yng ngorllewin Cymru am bum mlynedd ar hugain, ac mae ganddo wybodaeth gynhwysfawr o hanes ac adeiladau canoloesol.


Mai 2014

246x189mm

ISBN CC: 9781783160464

£34.99

eISBN: 9781783160471





DWY GYMRAES, DWY GYMRU

Hanes Bywyd a Gwaith Gwyneth Vaughan
a Sara Maria Saunders

Rosanne Reeves

Dyma gyfrol ddifyr ac hawdd ei darllen, sy'n portreadu bywyd dwy Gymraes uchelgeisiol o gyfnod y 'Ddynes Newydd' yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y naill fel y llall yn benderfynol o wella cyfiwr cymdeithas. Fel ffeminyddesau brwdfrydig, rhoddwyd eu llenyddiaeth ar waith i ddarbwylllo'r Gymraes na ellir gwella ar gymdeithas heb ei pharodrwydd hi i ddod allan o'i chartref ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddyfodol ei chenedl. Bwriad y cyhoeddiad hwn yw atgyfodi dwy a oedd yn enwog yn eu dydd, ond sydd erbyn heddiw, am amryw resymau a drafodir, wedi mynd yn angof.

Mae **Rosanne Reeves** yn gyfieithwraig, ac hi oedd un o sefydlwyr Honno, y wasg i fenywod Cymru, ym 1987.

Mehefin 2014
216x138mm
ISBN CC: 9781783160617
£24.99

eISBN: 9781783160624

Cyfres: Astudiaethau Rhywedd Cymru

LLYFRAU NEWYDD

THOMAS CHARLES O'R BALA

Golygwyd gan D. Densil Morgan

Cyfrol yw hon sy'n dathlu bywyd a gwaith Thomas Charles o'r Bala (1755–1814) ar achlysur dauganmlwyddiant ei farw. Ni wnaeth neb mwy nag ef yn ail hanner y ddeunawfed ganrif i sicrhau fod y Cymry yn genedl lythrennog a darllengar. Roedd yn ogystal yn rhan o rwydwaith eang o arweinwyr crefyddol a oedd yn hyrwyddo'r ddysg feiblaidd yn gydwladol.

Mae **D. Densil Morgan** yn Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.


Gorffennaf 2014

216x138mm

ISBN CM: 9781783160686

£24.99

eISBN: 9781783160693




GOLYGWYD GAN

D. DENSIL MORGAN

LLYTRAU NEWYDD

ARGRAFFIAD
NEWYDD



LLÊN YR UCHELWYR

Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525

Dafydd Johnston

Dyma astudiaeth fanwl o lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol diweddar, yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith. Hwn oedd cyfnod oes aur y cywydd yn nwylo beirdd fel Dafydd ap Gwilym, Iolo Goch, Guto'r Glyn, Lewys Glyn Cothi a Thudur Aled. Eglurir yn y gyfrol arwyddocâd cymdeithasol y llenyddiaeth mewn cyd-destun hanesyddol, ac ystyrir hefyd ei gwerth arhosol a'i hapêl at y darlennydd cyfoes.

Dafydd Johnston yw cyfarwyddwr Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, ac mae'n Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Ebrill 2014
234x156mm
ISBN CM: 9781783160525
£29.99
eISBN: 9781783160532

LLYFRAU YN Y WASG

I'W CYHOEDDI AR GYFER HAF 2014




Y LLAWES GOCH A'R FANEG WEN

Delweddau o'r Corff Benywaidd mewn Ffuglen
Gymraeg gan Fenywod

Mair Rees

Thema'r llyfr hwn yw'r modd y mae nofelwyr benywaidd Cymraeg wedi son am rai o'u profiadau corfforol mwyaf personol a dwys, a sut mae'r drafodaeth honno wedi newid dros amser. Mae'r gyfrol yma'n defnyddio ystod eang o nofelau a ffynonellau cyfoes eraill, gan gynnwys hysbysebion, delweddau, chwedloniaeth a ffynonellau electronig, i lywio dadl ffres, fywiog a heriol.




JOHN PENRY (1563-1593) A PHIWRITANIAETH GYNNAR

Crefydd, Cenedlgarwch a Gwladwriaeth

John Gwynfor Jones

Dyma fywgraffiad o John Penry, y Cymro o Sir Frycheiniog ac un o arweinwyr Pwritaniaeth Lloegr yng nghyfnod olaf y Tuduriaid. Cyfrannodd John Penry yn helaeth i feirniadaeth o'r Eglwys Brotestannaidd newydd yn Lloegr a Chymru a sefydlwyd ym 1559. Fe'i dedfrydwyd i farwolaeth am deyrnfradwriaeth, a'i ddienyddio yn Llundain ym 1593 – yn ferthyr i'w achos ym marn llawer.

CYFEIRLYTRAU



GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU

Ail argraffiad

Golygwyd gan R. J. Thomas, Gareth A. Bevan a Patrick J. Donovan

Mae'r *Geiriadur* yn gyfeirlyfr hanfodol i unrhyw un sydd am astudio'r Gymraeg a'i llenyddiaeth, ond y mae hefyd yn amhrisiadwy ym meysydd hanes, enwau lleoedd, llên gwerin, ieithyddiaeth gymharol a ieit heg. Mae'n adnodd gwerthfawr i unrhyw lyfrgell coleg neu ysgol. Gweler www.cymru.ac.uk/geiriadur am fanylion pellach.

GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU

Ail argraffiad

Golygwyd gan Gareth A. Bevan, Patrick J. Donovan ac Andrew Hawke

Rhan 1 (a-adwedd), CM **£9.99**

Rhan 2 (adwedd–anghlud), CM **£9.99**

Rhan 3 (anghludadwy–amaethyddes), CM **£9.99**

Rhan 4 (amaethyddiad–anafod), CM **£9.99**

Rhan 5 (anafod–anneinamig), CM **£9.99**

Rhan 6 (anneir–anweledig), CM **£9.99**

Rhan 7 (anweledig–arffedogaeth), CM **£9.99**

Rhan 8 (arffedogaeth–atchwelaf), CM **£9.99**

Rhan 9 (atchwelaf–bar1), CM **£9.99**

Rhan 10 (bar1–bil1), CM **£9.99**

Rhan 11 (bil–bôn), CM **£9.99**

Rhan 12 (bôn–briffaf), CM **£9.99**

ISSN 00720542

Cyfrol 1: (A–Ffysur) Rhannau I–XXI

ISBN 9780708305041 **£99.00**

Cyfrol 2: (G–Llyys) Rhannau XXII–XXXVI

ISBN 9780708309810 **£99.00**

Cyfrol 3: (M–Rhywyr) Rhannau XXXVII–L

ISBN 9780708315309 **£99.00**

Cyfrol 4: (S–Zwinglïaidd) Rhannau LI–LXI

ISBN 9780708318041 **£99.00**

Set gyfan o bedair cyfrol

ISBN 9780708318065 **£350.00**

CYFEIRLYFRAU

GRAMADEG Y GYMRAEG


Peter Wynn Thomas

Dyma'r dadansoddiad llawnaf a thrylwyr af fu erioed o'r Gymraeg. Hwn hefyd yw'r gramadeg cyntaf i ymdrin ag amrywiadau arddulliol yr iaith – o'r ffurfiol i'r anffurfiol, o'r cyfredol i'r hynafol, o'r safonol i'r ansafonol.

GEIRIADUR YR ACADEMI


Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones

Dyma'r geiriadur Saesneg-Cymraeg mwyaf cynhwysfawr erioed. Mae'n agor y drws i gyfoeth y Gymraeg wrth iddi addasu at ofynion meysydd newydd megis masnach a gweinyddiaeth, addysg a'r cyfryngau torfol. Mae *Geiriadur yr Academi* yn gyfeirlyfr angenrheidiol i Gymry Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd.



Tachwedd 2003
276x201mm
ISBN CC: 9780708311868
£55.00

Tachwedd 2012
234x156mm
ISBN CM: 9780708313459
£19.99




CYFEIRLYTRAU

Mai 2004

210x148mm

ISBN CM: 97800708317365

£6.99



BETH YW'R GAIR AM ...

Carol Williams

A ydych chi am wybod y geiriau Saesneg am yr holl eiriau Cymraeg a ddefnyddiwyd o ddydd i ddydd? Byddwch yn eu cael yma mewn fformat clir, deniadol a chyfleus. Yn adran Gymraeg–Saesneg y gyfrol, cyflwynir system syml ond cynhwysfawr i gynorthwyo dysgwyr y Gymraeg gyda threigladau, ynghyd ag adrannau yn cyflwyno'r amser, anifeiliaid, bwyd, chwaraeon, dillad a rhannau'r corff.

GEIRIADUR TERMAU ARCHAEOLEG

John Ll. Williams

Dyma'r geiriadur termau archaeoleg cyntaf i'w gyhoeddi yn y Gymraeg, ac fe'i lluniwyd gyda chydweithrediad arbenigwyr yn y maes. Mae'r cyfeirlyfr dwyieithog yma'n cynnig dros 6,000 o dermau, ac yn gyhoeddiad hanfodol i ddisgyblion a myfyrwyr hanes ac archaeoleg.

Gorffennaf 1999

234x156mm

ISBN CM: 9780708316061

£8.50

CYFEIRLYFRAU

GWYDDONIADUR CYMRU YR ACADEMI GYMREIG


Golygydd gan John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins a Peredur I. Lynch

Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig yw cyfeirlyfr mwyaf cynhwysfawr Cymru, yn cynnwys cofnodion awdurdodedig ar y wlad a'i phobl, ei chyfoeth diwylliannol ac hanesyddol. Cloriennir yn y *Gwyddoniadur* ystod rhyfeddol o wybodaeth, o uchelfannau Eryri i ddyfnderoedd pyllau glo'r de, o ddaear Cymru i gyfandiroedd pellennig, gan adrodd rhagoriaethau celfyddydol, gwyddonol a gwleidyddol ein gwlad. Dyma'r tro cyntaf i'r holl ddeunydd yma gael ei gynnwys mewn un ffynhonnell – dros 5,000 o gofnodion, a thros 300 o luniau.

CRYNO-DDYSG Y CYMRU

Cennard Davies

Bwriad y gyfrol hylaw hon yw cyflwyno i ddysgwyr profiadol un rhan o gyfoeth yr iaith, sef ei diarhebbion – yr ymadroddion neu ddywediadau bachog o ddoethineb sy'n britho iaith bob dydd, sef cryno-ddysg y Cymry. Dewiswyd llawer o'r diarhebbion a glywir yn aml a'u gosod mewn deialog er mwyn goleuo ac egluro eu defnydd. Ceir yma'n ogystal restr o idiomau ac ymadroddion idiomatig, ynghyd â geirfa bwrpasol i hwyluso'r darllen.




Chwefror 2008
276x198mm
ISBN CC: 9780708319543
£25.00

Tachwedd 2002


210x148mm

ISBN CM: 9780708317754

£6.99



CYFNODOLION



Cyhoeddir yn flynyddol
ym mis Chwefror
ISSN: 0957297X

Sefydliadau:

Print yn unig **£30.00**

Ar-lein yn unig **£30.00**

Y ddau **£50.00**

Unigolion:

Print yn unig **£17.50**

Ar-lein yn unig **£17.50**

Y ddau **£25.00**

CYLCHGRAWN ADDYSG PRIFYSGOL CYMRU

Golygydd: Dr Howard Tanner, Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Mae'r cylchgrawn blynyddol hwn, a adwaenid gynt fel *Cylchgrawn Addysg Cymru*, yn trafod agweddau datganoledig ar addysg yng Nghymru, ynghyd ag ymdrin ag addysg o safbwynt cenedlaethol a rhyngwladol. Wrth ymhel â materion cyfoes yn ymwneud ag addysg, mae'r drafodaeth yn amlinellu safbwyntiau dadleuol ynghylch dwyieithrwydd a chrefydd, yn ogystal â safonau llythrennedd a rhifydddeg ysgolion Cymru. Mae ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella safonau addysg yn esgor ar feysydd ymchwil newydd, a nod y cyfnodolyn yw cyhoeddi erthyglau cryno ar faterion cyfredol o'r fath.

CYFRWNG

Golygyddion: Dr Lisa Lewis, Prifysgol De Cymru; Dr John Jewell, Prifysgol Caerdydd

Mae *Cyfrwng* yn gyfnodolyn rhyngddisgyblaethol unigryw sy'n lwyfan ar gyfer cyflwyno ymchwil a thrafodaeth academaidd ar y cyfryngau yng Nghymru. Yn benodol, ymdrinnir â ffilm, teledu, y cyfryngau newydd, radio, newyddiaduraeth, theatr ac astudiaethau perfformio. Mae'n annog ymchwilwyr i gyfrannu at drafodaethau sy'n codi o'r berthynas rhwng y cyfryngau, y celfyddydau, diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth yng Nghymru. At hynny, ceir deongliadau theoretig ynghyd ag astudiaethau mwy empeiraidd eu naws.



Cyhoeddir yn flynyddol
ym mis Mai
ISSN: 17429234

Sefydliadau:

Print yn unig **£20.00**

Ar-lein yn unig **£20.00**

Y ddau **£30.00**

Unigolion:

Print yn unig **£15.00**

Ar-lein yn unig **£15.00**

Y ddau **£20.00**

CYFNODOLION

CYLCHGRAWN HANES CYMRU

Golygyddion: Yr Athro Huw Pryce, Prifysgol Bangor; Dr Paul O'Leary, Prifysgol Aberystwyth. Golygydd Adolygiadau: Martin Wright, Prifysgol Caerdydd

Mae *Cylchgrawn Hanes Cymru* wedi cael ei gyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru ers sefydlu'r cyfnodolyn ym 1960. Dyma'r cyfnodolyn mwyaf awdurdodol yn ei faes, a'i hanfod yw cyflwyno amrywiaeth eang yr ymchwil i faes hanes Cymru, o'r canoloesol hyd at y modern. Mae ysgolheigion o brifysgolion Cymru, Lloegr a'r Unol Daleithiau yn perthyn i'r bwrdol golygyddol, ac adlewyrchir arbenigeddau'r bwrdol yng nghynnwys y cyfnodolyn wrth fynd i'r afael â hanes diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd Cymru.

CONTEMPORARY WALES

Er 1987, mae *Contemporary Wales* wedi'i gyhoeddi'n flynyddol gan Wasg Prifysgol Cymru, yn lwyfan ar gyfer ymchwil blaengar ar Gymru o safbwynt y gwyddorau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol. Mae'n cynnwys cyfuniad o erthyglau gan academyddion ac ymarferwyr, adolygiadau economaidd a chyfreithiol blynyddol, ac adolygiadau o gyhoeddiadau yn y maes. Mae natur rhyngddisgyblaethol y cynnwys, sy'n seiliedig ar yr ymchwil diweddaraf, yn golygu bod y cyfnodolyn yn hanfodol i fyfyrwyr ac ymchwilwyr mewn ystod eang o feysydd gan gynnwys gwyddorau cymdeithasol, hanes, y gyfraith, y cyfryngau a ieithoedd. Mae *Contemporary Wales* yn cyhoeddi erthyglau yn y Gymraeg a'r Saesneg.



Cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn ym misoedd Mehefin a Rhagfyr
ISSN: 00816353

Sefydliadau:

Print yn unig **£50.00**
Ar-lein yn unig **£50.00**
Y ddau **£90.00**

Unigolion:

Print yn unig **£30.00**
Ar-lein yn unig **£30.00**
Y ddau **£50.00**


Cyhoeddir yn flynyddol ym mis Awst
ISSN: 09514937

Sefydliadau:


Print yn unig **£20.00**
Ar-lein yn unig **£20.00**
Y ddau **£30.00**

Unigolion:

Print yn unig **£12.50**
Ar-lein yn unig **£12.50**
Y ddau **£15.00**



CYFNODOLION



Cyhoeddir yn flynyddol
ym mis Hydref
ISSN Print: 20531907
ISSN Ar-lein: 20531915


Sefydliadau:
Print yn unig **£50.00**
Ar-lein yn unig **£50.00**
Y ddau **£90.00**

Unigolion:
Print yn unig **£25.00**
Ar-lein yn unig **£25.00**
Y ddau **£40.00**

Cyhoeddir yn flynyddol
ym mis Gorffennaf
ISSN: 00760188

Sefydliadau:
Print yn unig **£30.00**
Ar-lein yn unig **£30.00**
Y ddau **£50.00**

Unigolion:
Print yn unig **£15.00**
Ar-lein yn unig **£15.00**
Y ddau **£20.00**



LLÊN CYMRU

Golygir Llên Cymru yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Ers ei sefydlu ym 1950, *Llên Cymru* yw'r prif gylchgrawn academaidd yn ymwneud â llenyddiaeth Gymraeg. Mae'n cyhoeddi ymdriniaethau academaidd o'r safon uchaf, ar ffurf erthyglau ysgolheigaidd neu feirniadol, neu olygiadau o destunau. Cyhoeddir hefyd adolygiadau ar gyhoeddiadau yn ymwneud â llenyddiaeth Gymraeg, gan gynnwys adolygiadau ar gyfrolau perthnasol a gyhoeddwyd mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg. Mae'r cylchgrawn hefyd yn cynnwys adran nodiadau ar gyfer cyfraniadau byrion.

INTERNATIONAL JOURNAL OF WELSH WRITING IN ENGLISH

Golygydd: Dr Alyce von Rothkirch, Prifysgol Abertawe

Mae'r *International Journal of Welsh Writing in English* yn gylchgrawn arloesol sy'n arddangos yr ymchwil diweddaraf ar lenyddiaeth o Gymru yn yr iaith Saesneg, gan ymestyn ei orwllion hefyd i drafod agweddau ar berfformio, cyfleithu ac astudiaethau diwylliannol. Dyma gylchgrawn sy'n torri tir newydd trwy gyfrwng y trafodaethau gwreiddiol a geir ynddi, ac sy'n darlunio'r tirlun deallusol yng nghydestun y meysydd ymchwil cyfredol ac arloesol. Amlygir y defnydd o fethodoleg newydd a chynigir deongliadau cyffrous sy'n gosod llenyddiaeth Saesneg-Gymreig ar lwyfan rhyngwladol.

CYFNODOLION

STUDIA CELTICA

Golygyddion: Yr Athro Dafydd Johnston, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru; Yr Athro Ray Howell, Prifysgol De Cymru; Dr Karen Stöber, Universitat de Lleida; Dr G. R. Isaac, Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway

Mae *Studia Celtica*, a gyhoeddir yn flynyddol gan Wasg Prifysgol Cymru, yn gylchgrawn awdurdodol ym maes Astudiaethau Celtaidd. Cynrychiola ymchwil rhyngwladol o'r radd flaenaf ym meysydd iaith, llenyddiaeth, hanes ac archaeoleg.

JOURNAL OF CELTIC LINGUISTICS

Golygydd: Dr Graham Isaac, Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway

Mae'r *Journal of Celtic Linguistics* yn cynnwys erthyglau ac adolygiadau ar bob agwedd o'r ieithoedd Celtaidd – modern, canoloesol a hynafol – gyda phwyslais arbennig ar astudiaethau synchronig, heb eithrio gwaith diacronig a hanesyddol-gymharol.



Cyhoeddir yn flynyddol
ym mis Rhagfyr
ISSN: 00816353

Sefydliadau:
Print yn unig **£50.00**
Ar-lein yn unig **£50.00**
Y ddau **£90.00**

Unigolion:
Print yn unig **£25.00**
Ar-lein yn unig **£25.00**
Y ddau **£40.00**

Cyhoeddir yn flynyddol
ym mis Rhagfyr
ISSN: 09621377

Sefydliadau:
Print yn unig **£50.00**
Ar-lein yn unig **£50.00**
Y ddau **£90.00**

Unigolion:
Print yn unig **£30.00**
Ar-lein yn unig **£30.00**
Y ddau **£50.00**



SUT I ARCHEBU

Siop Prifysgol Cymru

12 Heol Fawr
Caerdydd
CF10 1AX
Ffôn: 029 2022 8205
E-bost: siop@cymru.ac.uk

Cymru

Cyngor Llyfrau Cymru
Y Ganolfan Ddosbarthu
Parc Menter Glanyrafon
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AQ
Ffôn: 01970 624455
Ffacs: 01970 625506
E-bost: canolfan.ddosbarthu@cllc.org.uk
Gwefan: www.gwales.com

DU (heb gynnwys Cymru) ac Iwerddon

NBN International Orders Department
Airport Business Centre
10 Thornbury Road
Plymouth
PL6 7PP
Ffôn: +44 (0) 1752 202301
Ffacs: +44 (0) 1752 202333
E-bost: orders@nbninternational.com
Gwefan: www.nbninternational.com

Dosbarthu Cyfnodolion

Turpin Customer Services
Pegasus Drive
Stratton Business Park
Biggleswade
Bedfordshire
SG18 8TQ
Ffôn: + 44 (0) 1767 604 4951
E-bost: custserv@turpin-distribution.com

Mae e-lyfrau Gwasg Prifysgol Cymru ar gael ar y gwefannau canlynol:

- academicPub: www.academicpub.sharedbook.com/academicpub/
- Blue Bottle Biz: www.bluebottlebiz.com
- Dawson: www.dawsonera.com
- Ebooks Corporation: www.ebookscorporation.com
- Ebrary: www.ebrary.com
- EBSCO ebooks: www.ebscohost.com/ebooks
- Gardners: www.gardners.com
- MyiLibrary: www.myilibrary.com
- Nook: www.nook.com
- Over Drive: www.overdrive.com
- Reference Tree: <http://reference-tree.com>
- Wheelers: www.wheelers.co.nz
www.eplatform.co

